# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Tachwedd 2025

Amser: 11.00 - 13.53

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/15425

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg<br>Emma Anderson, Llywodraeth Cymru<br>Rebecca Hawkins, Llywodraeth Cymru<br>Dylan Hughes, Llywodraeth Cymru<br>Robbie Thomas, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r eitemau canlynol: 4, 9, 10, 11, 12 ac 13

Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 5.1 SL(6)661 – Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.2 SL(6)662 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) (Rhif 2) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.3 SL(6)663 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.4 SL(6)664 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 3) (Cymru) 2025

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 6 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 6.1 SL(6)659 – Rheoliadau Newid Hinsawdd (Terfyn Credyd Cyfrif Allyriadau Net Cymru) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

### 6.2 SL(6)660 – Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 7.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn cysylltiad â chyfarfod Pwyllgor Sefydlog y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gynhelir ar 24 Tachwedd.

### 7.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rheoli Mercwri (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor ohebiaeth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

### 7.3 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) (Diwygio) 2025

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a'r ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

### 8.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Cyllideb Ddrafft 2026-27 Llywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

### 8.3 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Ymgynghoriad ar gynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

### 8.4 Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru: Bil Rheilffyrdd y DU

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru.

### 8.5 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni: Gorchymyn Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (Cychwyn a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2025

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

### 8.6 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) 2025

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cynlluniau Pensiwn: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chytunodd ar ei adroddiad drafft.

## 10 Y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i ystyried fersiwn ddiwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 11 Adroddiad Blynyddol 2024-25 Adroddiad drafft

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Troseddu a Phlismona: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), a chytunodd ar ei adroddiad drafft.

## 13 Gohebiaeth at y Pwyllgor Busnes: Adolygiad o’r prosesau ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod

Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol i'w cynnwys mewn ymateb i adolygiad y Pwyllgor Busnes.